RHIFYN
ISSUE
27
11.06.20

Llais Llantrisant



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

29.06.20 – Dechrau'r cyfnod o Ddysgu Cyfunol
Start of the Blended Learning period
10.07.20 – Adroddiadau Diwedd y Flwyddyn
End of Year Reports
24.07.20 – Diwedd y flwyddyn
End of Year

HOLIADURON
QUESTIONNAIRES

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi ymateb yn brydlon i'r holiadur diweddaraf 'Dychwelyd i'r Ysgol'. Cofiwch mai Mehefin 12fed yw dyddiad cau yr holiadur yma. Rhaid i ni dderbyn ymatebion erbyn y dyddiad yma os gwelwch yn dda er mwyn bwydo i mewn i'n cynlluniau a threfniadau ar gyfer Mehefin 29ain. Am ryw reswm, mae nifer o ymatebion wedi'u rhoi heb enwau'r plant. Yn amlwg, nid yw hyn o fudd i ni o gwbl, nac i rieni pan fydd eu plant nhw ddim mewn grŵp i allu dychwelyd i'r ysgol rhywbryd wedi Mehefin 29ain. Felly, da chi, nodwch enwau'ch plant os yw'r holiadur yn gofyn hyn os gwelwch yn dda. Yn ystod y dyddiau / wythnosau nesaf, bydd rhagor o holiaduron ac ebyst (ymddiheuriadau!) gan fod angen gwybodaeth a data ar RCT a'r ysgol.

Many thanks to all those who have already responded to the recent 'Returning to School' questionnaire. Please be mindful that we need all responses by June 12th . It is essential that we receive the information requested by this date please to inform our planning and organisation plan in readiness for June 29th. For some reason, we have received a number of responses where the request for pupils' names has been skipped. Obviously, this is of no benefit to us, or to parents when their children won't be in a group for their potential return to school at some point after June 29th. So, please, note your children's names if any questionnaire requests this. During the next days and weeks there will be more questionnaires and emails (apologies!) as RCT and school will require further information.



DYCHWELYD I'R YSGOL
RETURNING TO SCHOOL

Fel y gwyddoch, ar Fehefin 3ydd daeth y cyhoeddiad rydym i gyd wedi bod yn aros amdano. Dyma'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, yn datgan y byddai pob un plentyn yn cael cyfle i 'Ailgydio, Dal i fyny, Paratoi ar gyfer yr Haf a Mis Medi' rhywbryd rhwng Mehefin 29ain a Gorffennaf 24ain. Nid oedd llawer yn disgwyl cyhoeddiad o'r math yma ond dyna ni, dyna'r penderfyniad. Wythnos gyfan yn ddiweddarach, ar Fehefin 10fed , derbyniwyd y cyfarwyddyd a chanllawiau bu sôn amdanynt wythnos yn gynharach.

Y cam nesaf yw aros i RCT ddehongli'r cyfarwyddyd yma, i ni ei dderbyn a gweld os yw'n cyd-fynd o gwbl gyda'r syniadau a threfniadau arfaethedig oedd gennym cyn y cyhoeddiad. Y gobaith yw y bydd canllawiau a chyfarwyddiadau RCT gennym ar Fehefin 11eg, wythnos ac un diwrnod wedi cyhoeddiad y Gweinidog Addysg.

Wrth lwc, mae trafodaeth ynghylch dychwelyd i'r ysgol wedi bod yn barod ac mae'r staff wedi bod i mewn i'r ysgol i ddechrau rhoi trefn ar yr hen le! Un peth sy'n sicr, ni fydd y profiad o fod yn yr ysgol i'r plant nac i'r staff ychwaith fel ag yr oedd cyn i ni gau fis Mawrth. Serch hynny, bydd pob un aelod o staff yn sicrhau y bydd y plant sy'n dychwelyd yn hapus, yn ddiogel ac yn mwynhau'r cyfnod byr y gorau y gallant.

Mae tasg a hanner o'n blaenau ni gyda nifer helaeth o ffactorau i'w hystried:

- **Plant 'Gweithwyr Allweddol';**
- **Staff sydd ddim yn gallu dychwelyd i'r ysgol;**
- **Maint yr ystafelloedd;**
- **Trafnidiaeth ysgol … i enwi dim ond ychydig.**

Byddwn mewn cysylltiad gyda rhagor o wybodaeth maes o law.

As you will undoubtedly be aware, June 3rd saw the announcement we had all been eagerly awaiting. Kirsty Williams, Minister for Education, announced that every child would have the opportunity to 'Check in, Catch up, Prepare for Summer and September' at some point between June 29th and July 24th. Not many were expecting an announcement like this, but that was the decision. A whole week later, On June 10th, came the directive and guidance mentioned the previous week.

The next step now is to wait for RCT's interpretation of this guidance, receive it and ascertain whether it will resemble the ideas and proposed arrangements we had already discussed prior to the initial statement. It is hoped that RCT's guidance will reach us on June 11th, one week and one day after the Minister for Education's announcement.

Luckily, there have already been discussions and meetings regarding the return to school and the staff have already visited school to begin to reorganise the old place! One thing is sure, the experience of being in school for the pupils and staff will not resemble anything we were familiar with prior to closure in March. Despite this, every member of staff will ensure that the children who will return will be happy, safe and will enjoy the short period as best they can.

We have a mammoth task ahead with a great deal of influencing factors to consider:

- *Children of 'Key Workers';*
- *Members of staff who are currently unable to return to school;*
- *Classroom sizes;*
- *School Transport … to name just a few.*

We shall be in touch shortly with further information.

LLONGYFARCHIADAU!
CONGRATULATIONS!

Da iawn wir i ddisgybl arall o'r ysgol sydd wedi treulio peth o'i hamser gartref yn ddiweddar i godi arian at elusen werth chweil arall. Rhedodd Anni Naughton ras yn ddiweddar gyda'r teulu a chododd hi £1600 tuag at elusen @NDCS_Cymru. Gwych!

Well done to another of our pupils who has spent some of her time at home recently to raise money for another worthy charity. Anni Naughton joined her family to take part in a race recently which saw her raise £1600 for @NDCS_Cymru. Fantastic!



Os ydych chi'n gwybod am blant eraill o'r ysgol sydd wedi gweithio'n galed i wneud rhywbeth caredig i helpu eraill, rhowch wybod!

If you know of any of our children who have worked hard to show kindness in helping other, let us know!

HOLIADURON
QUESTIONNAIRES

Mae angen i ni ofyn rhagor o gwestiynau i rieni'r plant fydd yn dychwelyd rhwng Mehefin 29ain Gorffennaf 24ain . Gweler llythyr ynghylch hyn yma. Rydym wedi'i ebostio at ein rhieni hefyd.

We need further information off the parents of those children returning between June 29th and July 24th. Please see a letter regarding this here. We have also emailed it to parents.

Holiadur Trafnidiaeth
School Transport Questionnaire

Holiadur Gweithwyr Allweddol
Key Workers Questionnaire

NID OES ANGEN ATEB YR HOLIADURON HYN OS NAD YDY'CH PLENTYN YN DYCHWELYD.

YOU NEED NOT RESPOND TO THESE QUESTIONNAIRES IF YOUR CHILD IS NOT RETURNING.

CROESO NÔL
WELCOME BACK

Diolch yn fawr i holl ymdrechion y staff oedd yn gallu dod i mewn i'r ysgol yn ddiweddar, rydym wedi ail-drefnu'r dosbarthiadau. Dim ond 7 plentyn fydd yn gallu bod ym mhob dosbarth yn gyfforddus gyda digon o le iddyn nhw a'r staff i symud o gwmpas - 8 plentyn yn Nosbarthiadau 7 a 10 gan fod yr ystafelloedd ychydig yn fwy.

- **Dim ond bocs brechdanau a photel ddŵr bersonol fydd eu hangen ar bob plentyn. Bydd y plant yn bwyta eu ciniawau gyda'u ffrindiau yn yr ystafell ddosbarth ac, wrth gwrs, bydd y staff yn sicrhau safonau uchel o hylendid.**
- **Byddwn yn darparu setiau personol o'r holl offer angenrheidiol i sicrhau nad oes angen rhannu unrhyw offer - ni chaniateir i'r plant ddod ag offer o'r cartref i'r ysgol.**
- **Ni fydd plant o ddosbarthiadau / blynyddoedd eraill yn cael cymysgu a bydd amseroedd chwarae ar wahân i bawb.**
- **Ni fydd yn bosibl i ni newid diwrnodau wedi i ni drefnu'r 295 o blant - ceisiwn ein gorau glas i ystyried brodyr a chwiorydd.**
- **Gofynnir i'r plant wisgo gwisg ysgol os gwelwch yn dda - eitemau sydd yn hawdd i'w golchi bob dydd.**
- **Ni fydd pawb yn dechrau a gadael bob dydd ar yr un pryd - bydd amseroedd ac amserlen dynn fydd ddim yn caniatau i blant gyrraedd yn hwyr gan ein bod yn gorfod glynu at y rheolau ymbellhau cyfredol.**
- **Nid oes sicrwydd y bydd pawb yn cael mynychu pedair gwaith o fewn y bedair wythnos gan ein bod yn gorfod cynnal darpariaeth Hwb i blant 'Gweithwyr Allweddol' yn yr ysgol hefyd. Nid oes digon o ystafelloedd na staff gennym. Felly, annogir i chi ystyried eich defnydd o elfen hon y ddarpariaeth er tegwch pob plentyn. Oes un rhiant gartref weithiau?**
- **Ni fydd y 'plant Hwb' gyda'u hathrawon dosbarth bob dydd.**
- **Gweithio tuag at draean o'r plant yn mynychu yn eu tro rhwng Mehefin 29ain Gorffennaf 24ain yw'r bwriad.**

Thanks to the efforts of those members of staff who were able to come into school recently, we have managed to rearrange the classrooms. Only 7 pupils will comfortably fit in each classroom with enough space for the children and staff to walk through - 8 children in Classes 7 and 10 since the rooms are marginally larger.

- *The children will only require their lunch boxes and a personal water bottle for their use during the day - the children will eat their lunch in the classroom with their friends. Of course, the staff will ensure high levels of hygiene.*
- *We shall provide personal sets of essential equipment to ensure no sharing of such items happens - items from home will not been permitted.*
- *Children from other classes / years will not be able to mix socially. All groups will have staggered playtimes.*
- *It will not be possible to change days once we have organised and considered all of our 295 pupils - we shall endeavour to consider siblings attending on the same day if possible.*
- *Children are asked to wear school uniform please - items which are easily washed each day.*
- *All children will not start and leave at the same time - there will be set times and a tight timetable which will not allow late arrivals since we shall be strictly adhering to the current social distancing measures.*
- *There is no guarantee that each child will attend four times during the four weeks since school has to provide a Hub provision for children of 'Key Workers' alongside the return to school provision. We have a lack of available rooms and a reduced workforce. Therefore, you are urged to consider your use of this element of the provision to be fair to all pupils. Is there one parent at home at times?*
- *'Hub children' will not be with their class teachers every day.*
- *The intention and expectation is that we work towards a third of pupils attending in their turn between June 29th and July 24th.*







Cewch ragor o wybodaeth rhwng nawr a Mehefin 29th
You will receive more information between now and June 29th